

BYDD EICH DYCHYMYG YN HEDFAN YN LLANELLI

Cynlluniwch eich ymweliad yn www.twt.org.uk/llanelli



LABORDY DŴR

Mae'n bwrw glaw drwy'r amser yma diolch i'n Systemau Draenio Cynaliadwy clyfar! Dewch i weld sut mae dŵr glaw yn gyrru nodweddion ysbrydoledig y labordy, megis y rhaeadr cwpan a'r olwyn ddŵr, a gwneud synau realistig gyda'r ffon law anferthol.



BWRLWM Y BWYDO

Cydiwch mewn cwydn o rawn a chwerthinwch yn iach wrth i'n hwyaid a'n gwyddau cyfeillgar oglais cledr eich llaw wrth chwilio am fwyd!



LLE CHWARAE MEDDAL DAN DO

Hwyl dan do i blant bach yn ein lle chwarae meddal, ynghyd â chadeiriau cyffyrddus i'r oedolion, yn edrych allan ar olygfeydd hardd Cilfach Tywyn.



AIL-LENWI, YMLACIO, DADFLINO

Cinio cartref twym ac oer, te a choffi wedi'i baratoi'n ffres, cacennau i dynnu dŵr i'ch dannedd a golygfeydd hyfryd o Benrhyn Gŵyr — rhaid taw hwn yw Cegin Glas y Dorlan.



GWLYPTIROEDD Y MILENIWM GYDA WAW!

Mosäig anhygoel o lagynau, pyllau, pyllau bas a nentydd, y cyfan yn fyw gyda dyfrgwn, crehyrod, a channoedd o adar mudol yn ymweld. 'WAW' yw'r unig air amdani.




GOLYGFYDD YSBLENNYDD DRWY LYGAD ADERYN

Dringwch i fyny'n tŵr gwyllo am olygfa 360 gradd o'r safle, yn ymestyn yr holl ffordd dros y morfa heli hyd at arfordir trawiadol Cilfach Tywyn.



DDINAS LLYGODEN Y DŴR

Croeso i ddinas llygoden y dŵr lle y gallwch lithro drwy dwneli troellog i ddeall sut y mae llygoden y dŵr yn gweld y byd.



LLE CHWARAE BAE'R FFLAMINGO

Dringwch i fyny'r rhwyd ddringo i gael yr olwg orau o'n hwyaid a'n gwyddau ar y 'pwll top', dewch i chwarae yn y tywod a lithro'r oriau i ffwrdd yn ein lle chwarae awyr-agored ar thema fflamingos.

YN ADDAS I GADEIRIAU OLWYN A PHRAMIAU

FFLAMINGOS GWYCH

Yn dod ag ehediad o binc i'n gwarchodfa wych, mae ein haid hyfryd o fflamingos y Caribî yn barod amdanoch ac yn aros i gwrdd â chi.



GWYCH AR GYFER GRWPIAU



SAFFARI GANŴ *

Glas y Dorlan? Llygoden y Dŵr? Gwas y Neidr? Beth fyddwch chi'n sbotio ar y trêl trysor dyfrllyd cilomedr o hyd hwn?

* Codir tâl ychwanegol am y gweithgaredd hwn. Ar gael yn ystod gwyliau'r haf yn unig.



AR EICH BEIC *

Mae'r pedalau yn barod i chi archwilio'n gwarchodfa natur. Ymlwybrwch ar hyd llwybrau troellog, gan glosio at bob math o fywyd gwylt.

ARCHWILWCH EIN HARDAL CHWARAE

Mae anturiau yn aros amdanoch ar hyd ein llwybrau troellog drwy'r gwlyptir! Cerddwch drwy ein jungl gyrs, heibio i'r guddfan chwarae mig a dros y trawstiau cydbwysio i gyrraedd ein hardal adeiladu nyth enfawr.

